



Addysg gychwynnol i athrawon 2

Cwestiynau hunanfyfrio i gynorthwyo i werthuso ansawdd mentora mewn addysg gychwynnol i athrawon

Cwestiynau:

- A oes gennych strategaeth glir i ddatblygu rôl mentoriaid ac uwch fentoriaid sy'n cyfrannu'n effeithiol at eich gweledigaeth o addysg i athrawon?
- Sut ydych yn sicrhau bod gan yr holl staff sy'n gysylltiedig â chefnogi athrawon dan hyfforddiant y medrau, gwybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i wneud hynny?
- Sut ydych yn barnu effeithiolrwydd eich mentoriaid? Eich huwch fentoriaid?
- A oes gennych ddealltwriaeth gytûn ar draws y bartneriaeth o sut beth yw mentora effeithiol?
- A ydych yn achub ar ddigon o gyfleoedd i drafod mentora effeithiol?
- Sut ydych yn nodi mentoriaid y mae angen mwy o gymorth arnynt?
- Pa mor dda ydych yn rhannu arfer orau mewn mentora?
- Sut ydych yn sicrhau bod mentora'n galluogi myfyrwyr i wneud cynnydd da?
- A oes gan bob mentor ddealltwriaeth dda o sut a beth mae myfyrwyr yn ei ddysgu ar eu rhaglenni? Pa mor dda y mae mentoriaid yn creu cysylltiadau rhwng y rhaglen sy'n cael ei haddysgu a chynorthwyo myfyrwyr?
- Pa mor dda y mae mentoriaid yn datblygu medrau myfyrio a dadansoddi beirniadol myfyrwyr? Sut ydych yn barnu cynnydd myfyrwyr yn y maes hwn?
- Pa mor dda y mae mentoriaid yn cynorthwyo myfyrwyr i gynllunio a gwerthuso eu gwersi?
- Pa mor effeithiol yw asesu cynnydd myfyrwyr a) i sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu eu haddysgu mewn ffordd gyfannol a phersonol a b) i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i farnu ansawdd darpariaeth?